Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Y Gwir Anrhydeddus Elizabeth Truss AS

Prif Ysgrifennydd y Trysorlys

3 Mai 2019

Annwyl Brif Ysgrifennydd y Trysorlys

Ymchwiliad i Ffynonellau Cyllid Cyfalaf

Diolch ichi am eich ymateb dyddiedig 2 Ebrill mewn perthynas â gwahoddiad y Pwyllgor i ddod i un o'i gyfarfodydd fel rhan o'i ymchwiliad i Ffynonellau Cyllid Cyfalaf.

Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad ydych yn teimlo ei bod yn briodol ichi fod yn bresennol fel rhan o'r ymchwiliad.

Er fy mod yn sylweddoli nad oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bŵer i fynnu bod Gweinidogion y DU yn bresennol yn ei bwyllgorau, mae **Nodyn 12 yn y Canllawiau ar Ddatganoli** yn datgan y bydd Gweinidogion am ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun gan ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys:

> "the relationship between the Minister's responsibilities and the subject of the devolved legislature's enquiry (i.e. how closely linked are the issues? are there ramifications within devolved areas of UK Ministerial decisions?)

O gofio bod Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid confensiynol gan Lywodraeth y DU fel rhan o grant bloc Cymru, rydym o'r farn ei bod yn gwbl briodol ichi roi tystiolaeth. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ailystyried ein gwahoddiad, a gallem drefnu ichi gyfrannu drwy gynhadledd fideo pe bai angen.

Fodd bynnag, os nad ydych yn fodlon dod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer ei drafodaethau. Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad ar gael: **http://senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=24564**

Byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn 17 Mehefin 2019, i sicrhau y gallwn ystyried eich sylwadau wrth gyflwyno'n hadroddiad.

Yn gywir,

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Llyr Gruffydd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid